Y Diweddaraf ar gig defaid â'r croen ynghlwm ('smokies')

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (yr Asiantaeth) wedi cynnig bod gwaith ymchwil newydd yn cael ei gynnal i bresenoldeb gweddillion meddyginiaethau yng nghrwyn defaid.

Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar feddyginiaethau a ddefnyddir i reoli pryfed a pharaseitiaid allanol, a all gronni ym mraster croen ac yng nghrwyn defaid. Mae carnau defaid â'r croen ynghlwm, sydd wedi cael eu llosgi a'u diflewio ar gael yn gyfreithiol i'w bwyta gan bobl – bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel y cynnyrch a brofir wrth gynnal yr astudiaeth newydd.

Bydd data a gesglir o'r astudiaeth yn helpu i asesu effeithiolrwydd cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer meddyginiaethau milfeddygol ar grwyn defaid. Mae cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd yn sicrhau bod unrhyw weddillion meddyginiaethau islaw'r terfyn 'diogel' er mwyn diogelu'r defnyddiwr. Daeth ymchwil a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth yn 2005 i'r canlyniad nad oedd data digonol ar gael i asesu cig â'r croen ynghlwm ar gyfer meddyginiaethau penodol. Bydd yr astudiaeth newydd yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau a geir mewn gwybodaeth gyfredol.

Mae'r gwaith hwn hefyd yn adeiladu ar ymchwil a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth yn 2003 i garcasau â'r croen ynghlwm a elwir hefyd yn 'smokies'. Ystyrir bod 'smokies' yn fwyd arbennig iawn ymysg nifer o grwpiau Asiaidd ac Affricanaidd ond ni chaniateir cynhyrchu cig o'r math hwn ar hyn o bryd yn yr Undeb Ewropeaidd. Canfu'r ymchwil yn 2003 y gellid cynhyrchu cig â'r croen ynghlwm yn ddiogel ac yn hylan o dan amodau a reolir.

Bydd yr ymchwil newydd yn gymorth wrth geisio diffinio'r gofynion ar gyfer cynhyrchu a bwyta 'smokies' yn y dyfodol yn y DU, os caiff cig o'r math hwn ei gyfreithloni.

Mae'n rhy gynnar i fentro rhagdybio pa bryd y bydd yr Asiantaeth mewn sefyllfa i fynd at y CE i awgrymu newid y gyfraith fel ag y mae hi ar hyn o bryd. Yn y tymor byr, nid oes unrhyw argoel y caiff y gyfraith ei newid er mwyn ei gwneud yn bosibl i ladd-dai a gymeradwyir gynhyrchu defaid â'r croen ynghlwm. O ganlyniad, mae cynhyrchu 'smokies' yn y DU yn parhau'n anghyfreithlon. Bydd yr Asiantaeth yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith.

Mae'r Asiantaeth yn gofyn am geisiadau i gynnal yr astudiaeth hon ac fe gyhoeddwyd gofyniad i gynnal ymchwil ar 20 Medi 2007. Mae'n debygol y bydd yr astudiaeth yn dechrau ym mis Ebrill 2008 a gall barhau am 12-18 mis nes dod i derfyn.

Gwybodaeth ychwanegol:

- Dolen i gyhoeddiad gwyddonol ar ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Filfeddygol Prifysgol Bryste i gynhyrchu cig â'r croen ynghlwm yn ddiogel: http://www.sciencedirect.com/science?_ob=ArticleURL&_udi=B6T9G-4NKXWRM-5&_user=121739&_coverDate=04%2F29%2F2007&_rdoc=1&_fmt=&_orig=search&_sort=d&view=c&_acct=C000010018&_version=1&_urlVersion=0&_userid=121739&md5=3dd581d1fef999c5f9e0a8c8e3804c92

- Dolen i ofyniad am Ymchwil newydd http://www.food.gov.uk/science/researchpolicy/researchfunding/rrd/requirements/

- Dolen i straeon blaenorol ar ‘Smokies’ http://www.food.gov.uk/news/newsarchive/2007/feb/smokies

Y Cefndir

Caiff ‘smokies’ eu cynhyrchu drwy losgi’r cnu oddi ar garcas dafad (yn aml drwy ddefnyddio lamp losgi) sy’n rhoi blas mwg cryf i’r cig. Mae cynhyrchu ‘smokies’ i’w gwerthu er mwyn i bobl eu bwyta yn anghyfreithlon gan fod y croen yn parhau i fod ynghlwm wrth y cig a chan fod yr anifeiliaid yn cael eu lladd ar safleoedd anhrwyddedig heb oruchwyliaeth swyddogol. Mae hyn yn groes i gyfraith yr UE yn ogystal â rheoliadau hylendid bwyd y DU.

Gall ‘smokies’ fod yn risg sylweddol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i nifer o resymau:

- caiff yr anifeiliaid eu lladd ar safleoedd anhrwyddedig (hen adeiladau fferm nas defnyddir mwyach yn aml) heb gydymffurfio â rheolaethau TSE o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig. Mae rheolaethau TSE yn cynnwys cael gwared ar ddeunydd risg a nodir sef y rhannau o gorff yr anifail sydd fwyaf tebygol o fod yn cario heintiau TSE
- gall y safleoedd lle caiff anifeiliaid eu lladd fel rheol sydd heb safonau glanwaith na hylendid arwain at garthion yn halogi a allai olygu presenoldeb bacteria niweidiol megis E.coli a Salmonella
- Ceir pryder am y gweddillion meddyginiaethau milfeddygol posibl yng nghrwyn carcasau defaid.

Ceir pryderon hefyd am les yr anifeiliaid o ganlyniad i amodau’r safleoedd lle gall yr anifeiliaid fod yn cael eu lladd.

Un ffordd o fynd i’r afael â’r fasnach ‘smokies’ anghyfreithlon gyfredol fyddai cyfreithloni eu cynhyrchiant mewn lladd-dai a gymeradwyir, a fyddai’n golygu y gallai defnyddwyr a’r gymuned ffermio elwa o’r galw ymddangosiadol am y cynnyrch.

Yn ôl i’r brig